SKSG9

Rigio mowntiau car mewn cerbydau neu arnynt

Trosolwg

Mae'r Safon hwn yn ymwneud â mowntio mownt camera mewnol neu allanol ar gerbyd neu ynddo. Mae'n ymwneud â dethol y math cywir o fownt camera a gosod y mownt heb niweidio'r cerbyd.

Mae'n ymwneud â defnyddio rhaffau strapiau hogi ac offer gosod arall, ac asesu cryfder ac addasrwydd y deunyddiau hynny. Mae'n ymwneud ag adnabod pob perygl ac amgylchiad amgylcheddol a allai effeithio ar y gwaith, cynhyrchu asesiad risg a rhoi gwybod i'r tîm cynhyrchu am unrhyw anghenion arbennig.

Mae'r Safon hwn ar gyfer unrhyw un sy'n rigio mowntiau car.

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

1 Gwirio fod pwysau'r camerâu a'r ategolion ddim yn fwy nag uchafswm llwyth pwysau'r mowntiau

2 Defnyddio gwybodaeth ddibynadwy i gadarnhau'r lleoliadau ac onglau siot sydd eu hangen

3 Gwirio fod arwynebeddau y bydd offer yn cael ei fowntio arno'n ddigon cryf i'w gynnal

4 Cadarnhau gyda phobl berthnasol lwybrau, cyflymder, safleoedd a chyfeiriad y cerbyd sy'n cael ei fowntio ac unrhyw gerbydau eraill

5 Teithio ar hyd y llwybr bwriedig ar adeg addas i adnabod natur yr arwynebedd ac unrhyw rwystrau

6 Cynhyrchu asesiad risg yn unol â gofynion iechyd a diogelwch

7 Adeiladu a lleoli rigiau a gwneud camerâu ac ategolion yn sownd yn unol â gofynion cynhyrchu

8 Defnyddio deunyddiau, rhaffau, clymau, strapiau hogi, gwifrau a strapiau clicied addas, yn unol â'u manylebau er mwyn atal unrhyw symud diangen

9 Nodi pwlis a rhaffau sydd o fewn llwythi gweithio diogel (SWL)

10 Cadarnhau nad yw rigiau'n rhwystro'r hyn y gall gyrwyr ei weld na'u gallu i gadw rheolaeth ar y cerbyd

11 Rigio cerbydau mewn modd sy'n golygu eu bod yn cydymffurfio ag unrhyw reoliadau cerbyd neu drafnidiaeth ffordd

12 Cynghori staff cynhyrchu perthnasol pan fydd angen caniatâd arbennig

13 Rhoi gwybod i staff cynhyrchu addas am unrhyw rwystr neu amgylchiadau sy'n effeithio gweithio'r rigiau'n ddiogel

14 Gwirio fod y rig yn ddiogel yn unol â rheoliadau a chanllawiau cyfredol

15 Diogelu a gwarchod offer pan nad yw'n cael ei ddefnyddio, yn unol â chyfarwyddiadau gwneuthurwyr

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

1 Deddfwriaeth, canllawiau ac arfer orau cyfredol y diwydiant

2 Pwysau'r camera ac unrhyw ategolion, sut i'w cyfrifo, a sut y gallant effeithio ar y mowntiau

3 Y math o ddeunyddiau yr atodir mowntiau iddynt, a'u cryfder

4 Llwybr bwriedig a chyflymder y cerbyd, a'r gofod clirio a chryfder unrhyw atodiadau sydd eu hagen

5 Natur yr arwynebedd y gyrrir arno, a sut i adnabod unrhyw rwystrau posib

6 Safle bwriedig unrhyw gerbydau atodol neu rai sy'n pasio

7 Terfynau eich arbenigedd a ble mae'n addas i alw ar arbenigwyr eraill

8 Manteision gweithio mewn tîm a sut i gyfathrebu ag eraill

9 Sut i gynhyrchu asesiad risg

10 Sut i ddethol y math o rig a sut i'w gyfosod heb achosi unrhyw niwed i'r cerbyd

11 Mathau gwahanol o strapiau hogi, clymau, strapiau clicied a gwifrau ar gyfer darparu sadrwydd a diogelwch ychwanegol

12 Sut i glymu hwylraff, cwlwm clof, cwlwm hanner a chwlwm llinglwm

13 Sut i ddethol y math cywir o drac, pwli, strap hogi, cwlwm, strap clicied a weiren

14 Llwythi gweithio diogel y deunyddiau i'w defnyddio ar gyfer cymhwysiad penodol a sut i'w cyfrifo

15 Pa fesurau i'w cymryd i sicrhau fod y gyrrwr ac unrhyw gyd-deithwyr yn ddiogel

16 Sut i ddatgysylltu'r bagiau awyr a phryd y mae'n addas gwneud hynny

17 Pa ddyfeisiadau i'w ddefnyddio i warchod yr offer camera rhag niwed allanol

18 Rheoliadau cerbydau neu drafnidiaeth ffordd berthnasol

19 Caniatâd arbennig y gellir bod angen ei gael pan fydd angen defnyddio cerbydau ar y briffordd gyhoeddus

20 Pa amgylchiadau allai effeithio ar weithredu diogel ac wrth bwy y dylid rhoi gwybod

21 Beth sy'n debygol o dynnu sylw defnyddwyr eraill y ffordd

22 Sut i ddiogelu offer pan nad yw'n cael ei ddefnyddio

23 Pam ei bod hi'n bwysig cadw offer yn sych ac yn rhydd o lwch, tywod a malurion eraill

Rigio mowntiau car mewn cerbydau neu arnynt

Datblygwyd gan	Creative Skillset
Fersiwn rhif	2
Dyddiad cymeradwyo	Mawrth 2018
Indicative Review Date	Mawrth 2022
Dilysrwydd	ArHynOBryd
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad cychwynnol	Screen Skills (gynt Creative Skillset)
RCU gwreiddiol	SKSG9
Galwedigaethau perthnasol	Technegydd Craen (Ffilm a theledu); Gweithredwr Craen (Ffilm a theledu); Grip dan hyfforddiant; Grip
Cyfres/Set	Grips a thechnegwyr craeniau
Geiriau Allweddol	Grip, Iechyd a diogelwch, Car, Mowntiau, Cerbydau